# JONES, EVAN KENFFIG (1863 - 1950), gweinidog gyda'r Bedyddwyr ac arweinydd cymdeithasol



**Enw:** Evan Kenffig Jones
**Dyddiad geni:** 1863
**Dyddiad marw:** 1950
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr ac arweinydd cymdeithasol
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg
**Awdur:** Thomas Richards

Ganwyd 20 Mai 1863 ym Mynydd Cynffig, Sir Forgannwg; cafodd ei addysg yng ngholeg Pont-y-p l; ordeiniwyd ef ym Merthyr Vale 1880-91 a bu'n weinidog wedyn ym Mrymbo 1891-1913, a Thabernacl Cefn-mawr; ymneilltuodd yn 1934. Yr oedd yn Fedyddiwr selog a digymrodedd; bu'n ysgrifennydd Cymanfa Dinbych, Flint, a Meirion am flynyddoedd, a'i chadeirydd ddwywaith; llywydd Undeb y Bedyddwyr, 1928; efe oedd y prif awdurdod ar Lythyrau Cymanfaoedd yr enwad (gweler *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1922). Yn ychwanegol at hyn, yr oedd gyda'r g r prysuraf ym mywyd cyhoeddus gogledd Cymru, brwd, pybyr, egnïol, yn aelod o hen fwrdd gwarcheidwaid Gwrecsam, ac yn aelod blaenllaw o bwyllgor addysg cyngor sir Ddinbych (yn 1933 cyhoeddodd lyfr tra gwerthfawr ar hanes ysgolion Cefn-mawr a'r cylch). Nid oedd dirwestwr yn y wlad mwy pybyr nag ef, canys yr oedd ei lais yn uchel glywadwy yng nghymanfa ddirwestol Gwynedd ac yn y llysoedd trwyddedu (' Your Mr. Jones is worth twenty of our men ', meddai un o brif ddynion y bragwyr wrth ddirwestwr arall). Yr oedd yn heddychwr diffuant hefyd, amlwg yn dadlau o flaen tribiwn-lysoedd, a chyfansoddi pamffledi Cymraeg i gymdeithas Heddwch Cymru. Ei brif weithiau llenyddol oedd (ar wahan i lu o ysgrifau mewn cyfnodolion), *The Baptists of Wales and Ministerial Education* (1902), *Y Beibl a Dirwest* (1906), *A Short Sketch of the History of the Baptist Church of Llanidloes* (1908), *Hanes Cymdeithas genhadol y Bedyddwyr* (1944); yn 1941 cyhoeddodd *Hanes Eglwys Annibynnol Brymbo (Harwt a Bryn Seion)*. Yn 1937 cafodd ei urddo'n D.D. ('er anrhydedd') gan Brifysgol Cymru. Bu farw 18 Gorffennaf 1950.

## Awdur

**Thomas Richards**, (1878 - 1962)

## Ffynonellau

*Seren Cymru*, 4, 18 Awst 1950 (rhifyn coffa), 26 Hydref 1956

## Delweddau

James Telling, Evan Kenffig Jones

James Telling, Evan Kenffig Jones (of Nantymoel), with his cousin William Williams

Lewis Volpe, Evan Kenffig Jones (of Caemawr)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733035

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu